

# **Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Heddlu ac Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys**

## **Cofnodion cyfarfod 18 Mai 2012**

Yn bresennol:

- Kerrie Phillips (Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys) Cadeirydd y cyfarfod
- Helen Morgan-Howard (Heddlu Dyfed-Powys)
- Lisa O'Connor (Heddlu Dyfed-Powys)
- Uwch-arolygydd Reg Bevan (Heddlu Dyfed-Powys)
- Uwch-arolygydd Aled Davies (Heddlu Dyfed-Powys)
- Ditectif Ringyll Ross Evans (Heddlu Dyfed-Powys)
- PR (Cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain)
- MC (Cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain)
- PS (Ymgynghorydd Annibynnol)
- NH (Ymgynghorydd Annibynnol)
- MB (Ymgynghorydd Annibynnol)
- DT (Ymgynghorydd Annibynnol)
- HL (Ymgynghorydd Annibynnol)
- BH (Ymgynghorydd Annibynnol)
- JJ (Ymgynghorydd Annibynnol)

### **1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan bum Ymgynghorydd Annibynnol.

### **2. Datganiadau o ddiddordeb.**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### **3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2012**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr yn gofnod gwir a chywir, ar wahân i'r canlynol:

tud.4: Mewn ymateb i'r cyflwyniad gan Safonau Proffesiynol, sylwodd un Ymgynghorydd y dylai achwynyddion dderbyn gwell adborth. Ni nodwyd hyn yn y cofnodion.

### **4. Newidiadau i Grŵp Prif Swyddogion Heddlu Dyfed-Powys**

Bydd y Prif Gwnstabl Arundale yn ymddeol ym mis Mehefin 2012. O ganlyniad, cytunwyd ar y trefniant dros dro canlynol:

- Daw'r Dirprwy Brif Gwnstabl Jackie Roberts yn Brif Gwnstabl Dros Dro;
- Daw'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol presennol, Nick Ingram, yn Ddirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro;

Yn ddiweddar, penodwyd Prif Gwnstabl Cynorthwyol newydd, Carl Langley, ac mi fydd yn ymgysylltu â'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ymhen amser.

## **5. Cyflwyniad ar Rôl Ymgynghorwyr Digwyddiadau Argyfyngus**

Rhoddodd yr Uwch-arolygydd Reg Bevan ac Ymgynghorydd Annibynnol gyflwyniad ar y cyd ar rôl 'Ymgynghorydd Digwyddiadau Argyfyngus'.

Rhoddodd yr Uwch-arolygydd Reg Bevan wybodaeth am ddigwyddiad argyfyngus a ddigwyddodd yn yr ardal heddlu ym mis Ionawr 2012. Oherwydd natur y digwyddiad argyfyngus, gofynnodd y cyfarfod 'Aur' am gyngor Ymgynghorydd Digwyddiadau Argyfyngus ar yr achlysur hwn. (Mae'r cyfarfod 'Aur' yn dod â swyddogion sy'n gweithio ar yr achos at ei gilydd. Ei rôl yw arwain a goruchwyllo'r ymchwiliad.)

Esboniodd yr Uwch-arolygydd Bevan y mathau o faterion sydd yn cael eu hystyried mewn cyfarfodydd Aur, a'r materion penodol a drafodwyd mewn cyfarfodydd Aur yn yr achos hwn. Hefyd, esboniodd sut y bu'r cyngor a'r awgrymiadau a roddwyd gan yr Ymgynghorydd Digwyddiadau Argyfyngus yn werthfawr iawn i'r ymchwiliad. Esboniodd yr Uwch-arolygydd Bevan mai rôl Ymgynghorwyr Digwyddiadau Argyfyngus yw meddwl mewn ffordd wahanol. Atgoffodd yr Ymgynghorwyr i ddweud yr hyn sy'n amlwg, oherwydd mae'n bosibl na fydd yn amlwg i bawb arall sy'n rhan o'r achos.

Gwnaeth yr Ymgynghorydd Annibynnol y pwyntiau canlynol mewn perthynas â rôl 'Ymgynghorydd Digwyddiadau Argyfyngus':

- Mae angen i Ymgynghorwyr sicrhau nad yw'r achos yn 'rhy agos i'w bywyd personol';
- Dylai Ymgynghorwyr fod yn ymwybodol o'u diogelwch eu hun;
- Ni ddylai Ymgynghorwyr fyth dod i wybod canlyniad yr achos;
- Os yw Ymgynghorwyr yn cymryd rhan yn y Grŵp Aur drwy gynhadledd ffôn, ceisiwch fynd i'ch gorsaf heddlu agosaf a ffonio oddi yno.

### Cwestiwn

A yw rôl Ymgynghorydd Digwyddiadau Argyfyngus Annibynnol yn cael ei amlinellu yn Amodau Gorchwyl y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol?

### Ateb

Esboniodd Kerrie Phillips a Helen Morgan-Howard fod Amodau Gorchwyl y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol wedi'u diwygio, gan nodi rôl Ymgynghorydd Annibynnol a rôl Ymgynghorydd Digwyddiadau Argyfyngus Annibynnol mewn modd mwy eglur.

Bydd Kerrie a Helen yn ysgrifennu at Ymgynghorwyr Annibynnol er mwyn estyn gwahoddiad ffurfiol iddynt fynegi diddordeb mewn gweithredu fel Ymgynghorwyr Digwyddiadau Argyfyngus Annibynnol. Gofynnir i Ymgynghorwyr Annibynnol gwblhau crynoddarlun, gan esbonio'u gwybodaeth a'u profiad o gymunedau yn ôl lleoliad neu gymunedau yn ôl diddordeb penodol. Awgrymodd un Ymgynghorydd y dylid anfon y templed ar gyfer darparu crynoddarlun at Ymgynghorwyr perthnasol er mwyn sicrhau nad oes risg o adnabod unigolion drwy'r templed.

### Cwestiwn

A ddarperir cymorth i Ymgynghorwyr sy'n dioddef trawma neu effaith o ganlyniad i'w rhan mewn digwyddiadau argyfyngus?

### Ateb

Esboniodd Helen fod Amodau Gorchwyl y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn cynnwys adran am faterion lles a chymorth ar gyfer Ymgynghorwyr. Mae'r adran hon yn esbonio fod y potensial i Ymgynghorwyr Annibynnol ddioddef sgil effeithiau seicolegol negyddol o ganlyniad i'w rôl yn fach. Fodd bynnag, os yw

Ymgynghorwyr Digwyddiadau Argyfyngus Annibynnol yn dioddef unrhyw sgil effeithiau seicolegol negyddol o ganlyniad i'w rhan mewn ymchwiliadau neu ddigwyddiadau argyfyngus, gallant gael mynediad at wasanaethau cwnsela neu wasanaethau cymorth a ddarperir gan Uned Iechyd Galwedigaethol Heddlu Dyfed-Powys. Ni ddarperir cymorth iechyd a lles cyffredinol gan yr Uned Iechyd Galwedigaethol ar gyfer aelodau o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

## **6. Diweddariad ynglŷn â'r trefniadau trawsnewid o Awdurdod Heddlu i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd**

Esboniodd Kerrie fod yr Heddlu a'r Awdurdod wedi sefydlu dau fwrdd trawsnewid er mwyn rheoli'r newid o Awdurdod Heddlu i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Mae'r bwrdd strategol yn cynnwys uwch swyddogion o'r Awdurdod a'r Heddlu, ac yn cael ei gadeirio ar y cyd gan y Dirprwy Brif Gwnstabl Roberts a Delyth Humphries. Mae'r Bwrdd hwn yn goruchwyllo'r gwaith yr ymgymerir ag ef er mwyn rheoli'r trawsnewid.

Mae swyddogion arweiniol wedi'u penodi er mwyn mynd â nifer o ffrydiau gwaith ymlaen – mae Kerrie'n arwain ar 4 o'r rhain.

Hyd yn hyn, mae un ymgeisydd posibl wedi datgan diddordeb yn rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Cynghorodd Kerrie'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol am rôl Paneli'r Heddlu a Throsedd. Esboniwyd cymhlethdodau'r sefyllfa yng Nghymru a nodwyd nad oedd Awdurdod cynhaliol wedi'i sefydlu er mwyn hyrwyddo'r Panel yn ardal Dyfed-Powys hyd yn hyn.

Penderfynir ar benodiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd drwy bleidlais gyhoeddus mewn etholiadau ar 15 Tachwedd. Nid gwleidyddoli'r heddlu oedd y bwriad ac esboniwyd y gallai Ymgeiswyr Annibynnol sefyll am y rôl. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i ymgeiswyr Annibynnol gyflwyno ernes o £5000 a derbyn o leiaf 100 o enwebiadau.

Bydd pecynnau gwybodaeth yn cael eu paratoi ar gyfer ymgeiswyr. Bydd Awdurdod yr Heddlu'n llunio datganiad etifeddiaeth ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau. Yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ym mis Medi, efallai bydd yr Awdurdod yn ceisio cynnwys y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn yr asesiad effaith cydraddoldeb o drefniadau trawsnewid.

Bydd y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn newid o fod yn 'Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yr Heddlu ac Awdurdod yr Heddlu' i fod yn 'Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yr Heddlu a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau'.

### Cwestiwn

Os na fydd hyn yn gweithio, a fydd yn mynd yn ôl i'r hen drefn?

### Ateb

Ni fydd byth yn mynd nôl i fod yn Awdurdod Heddlu. Bydd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau nifer o'r cyfrifoldebau sydd gan Awdurdod yr Heddlu ar hyn o bryd, ond bydd y rhain yn ehangu llawer ymhellach yn nhermau cyfiawnder troseddol.

### **7. Mewnbyn mewn perthynas â darpariaeth o'r gwasanaeth 101 i bobl sy'n fyddar, yn drwm eu clyw, neu sydd â nam ar eu lleferydd**

Mae gan yr Uwch-arolygydd Aled Davies gyfrifoldeb dros reoli gallu neges destun yr Heddlu, mewn perthynas ag uchafu cyswllt â chymunedau.

Rhannodd yr Uwch-arolygydd Davies enghraifft o alwad 101 gan alwr byddar a ddefnyddiodd y gwasanaeth 'Text Relay' gyda'r grŵp. Roedd y galwr a'r un a wnaeth ymdrin â'r alwad hefyd yn bresennol am y rhan hwn o'r cyfarfod.

Gwasanaeth yw 'Text Relay' sy'n galluogi pobl sy'n fyddar, yn drwm eu clyw, neu sydd â nam ar eu lleferydd i ddefnyddio ffôn testun er mwyn cysylltu â defnyddwyr ffôn neu ffôn testun eraill. Gellir defnyddio 'Text Relay' gyda ffôn testun, ffôn, ffôn symudol neu gyfrifiadur.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar: <http://www.textrelay.org/>

Chwaraewyd yr alwad i Ymgynghorwyr, ac yna gofynnwyd iddynt am adborth. Trawsgrifiwyd cynnwys yr alwad gan gyfieithwyr iaith Arwyddion Prydain i iaith Arwyddion Prydain wrth iddi gael ei chwarae.

Roedd pawb yn gytûn fod yr alwad yn esmwyth, a bod y galwr a'r un a wnaeth ymdrin â'r alwad wedi cyfathrebu'n dda trwy ddefnyddio'r gwasanaeth 'Text Relay'.

Trafododd y galwr ac un Ymgynghorydd un broblem gyda'r gwasanaeth 'Text Relay'. Weithiau, gall trinwyr galwadau gymryd yn ganiataol mai galwr diwahoddiad sy'n galw oherwydd yr oedi pan ddaw'r alwad (pan mae'r testun yn cael ei drawsgrifio). Dywedodd yr Ymgynghorydd: 'Maent yn rhoi'r ffôn i lawr. Mae'n anodd iawn i bobl sy'n methu cyfathrebu. Mae llawer o bobl yn rhoi'r ffôn i lawr oherwydd yr oedi.'

Yna, trafododd yr Ymgynghorwyr y gwasanaeth neges destun mewn argyfwng, a'r ffaith nad yw nifer o bobl sy'n fyddar, yn drwm eu clyw, neu â nam ar eu lleferydd yn sylweddoli bod angen cofrestru er mwyn defnyddio'r gwasanaeth hwn mewn argyfwng.

Atgoffodd PS y grŵp nad Saesneg yw iaith gyntaf pobl fyddar yn aml iawn. Mae darllen Saesneg yn anodd iawn. Mae lluniau'n gymorth mawr wrth gyfathrebu. Cyngorodd PS yr heddlu i ddefnyddio 'delweddau er mwyn esbonio pethau'.

Cyngorodd PS y grŵp mai 'Action on Hearing Loss' y gelwir Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thwm eu Clyw bellach. Dywedodd yr Uwch-arolygydd Davies y byddai unrhyw gymorth y gallwn ei dderbyn gan gynghorwyr o ran codi ymwybyddiaeth ynghylch ffyrdd o gyfathrebu gyda'r Heddlu'n cael ei werthfawrogi.

Cyngorodd MB bod risg wrth ddefnyddio negeseuon testun er mwyn cyfathrebu â'r gwasanaethau brys – nid oes sicrwydd y bydd y neges yn cyrraedd. Mae angen ffordd o roi gwybod i'r anfonwr bod y neges wedi cyrraedd.

### Pwynt Gweithredu

Yr Uwch-arolygydd Aled Davies a Helen Morgan-Howard i godi ymwybyddiaeth am y gwasanaeth neges destun mewn argyfwng a gwasanaeth Text Relay.

## 8. Twyll rhynggrwyd a galw diwahoddiad

Esboniodd yr Uwch-arolygydd Aled Davies fod yr Heddlu'n gweld cynnydd yn y mathau o dwyll canlynol:

- Twyll rhynggrwyd
- Galw diwahoddiad

Rhoddodd yr Uwch-arolygydd Davies enghraifft o dwyll rhynggrwyd lle y mae neges yn ymddangos ar y sgrin gan ddweud 'Rydych chi wedi ymweld â safle na ddylech fod wedi ymweld ag ef, ac mae'n rhaid i chi dalu dirwy.'

Rhoddodd yr Uwch-arolygydd Davies enghraifft arall, lle y bydd galwr yn honni ei fod yn galw o gwmni Microsoft, a'i fod yn medru gweld firws ar gyfrifiadur unigolyn, a chynnig datrys y broblem am dâl.'

Mae'r mathau hyn o negeseuon yn cymryd mantais o wendidau pobl, yn arbennig pobl hŷn. Nid yw aelodau'r cyhoedd yn credu mai twyll yw'r negeseuon hyn oherwydd bod y negeseuon e-bost yn edrych fel petaent yn hollol ddilys.

Dywedodd PS fod rhai o'i ddefnyddwyr gwasanaeth yn y sector gwirfoddol wedi derbyn y mathau hyn o alwadau.

Esboniodd yr Uwch-arolygydd Aled Davies fod yr Heddlu'n anfon negeseuon er mwyn rhybuddio aelodau o'r gymuned, ac anogodd yr Ymgynghorwyr i godi ymwybyddiaeth o'r materion hyn o fewn eu cymunedau. Hefyd, gofynnodd a oedd gan Ymgynghorwyr unrhyw syniadau arloesol ar gyfer anfon negeseuon yn rhybuddio pobl ynghylch twyll.

Awgrymodd MB fod datganiadau i'r wasg gan yr Heddlu'n aml iawn yn rai hir, a bod pobl yn colli diddordeb. Dylai'r brif wybodaeth fod ar frig y neges i'r cyhoedd.

Awgrymodd Ymgynghorwyr y gellid defnyddio Twitter er mwyn postio dolenni i ddatganiadau i'r wasg. Holodd yr Uwch-arolygydd Davies: sut allwn ni wneud y neges Twitter yn fwy amlwg?

Holodd MB: a fyddai modd i Twitter dywys y cyhoedd i dudalen Facebook yr Heddlu yn hytrach na gwefan yr Heddlu?

Awgrymodd PS y dylid cynghori'r cyhoedd i gael cymorth i wirio e-byst sy'n gofyn am arian.

Awgrymodd BL fod plant yn gwybod mwy am gyfrifiaduron nag unrhyw un arall, ac awgrymodd anfon datganiadau i'r wasg at ysgolion, a gofyn i'r plant ddweud wrth eu rhieni a'u mamau a thadau cu.

### Pwynt Gweithredu

Yr Uwch-arolygydd Davies i drafod datganiad i'r wasg gyda Swyddog Cyswllt Ysgolion.

### Pwynt Gweithredu

Yr Uwch-arolygydd Aled Davies i anfon datganiadau i'r wasg i aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol er mwyn iddynt eu dosbarthu yn eu cymunedau.

Awgrymodd un Ymgynghorydd bod Facebook, Twitter a safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn well ffyrdd o godi ymwybyddiaeth na thafilenni.

Esboniodd un Ymgynghorydd fod gan Gyngor yr Henoed wirfoddolwyr sy'n ymweld â sefydliadau ar gyfer pobl hŷn - gellir gofyn i wirfoddolwyr roi gwybodaeth ar lafar i bobl hŷn.

### Pwynt Gweithredu

Yr Uwch-arolygydd Davies i anfon gwybodaeth at PS, fel bod modd iddo hidlo drwy'r sefydliad Cymru gyfan y mae'n gweithio iddo.

## **9. Stopio a Chwilio**

Darparodd Kerrie Phillips y cyd-destun ar gyfer y swyddogaeth Stopio a Chwilio.

Esboniodd Kerrie y dylai Stopio a Chwilio fod yn ymarfer sy'n cael ei arwain gan gudd-wybodaeth yn hytrach nag ymarfer ar gyfer casglu cudd-wybodaeth.



Ar hyn o bryd, mae'r Heddlu'n treialu technoleg data symudol, fodd bynnag, byddai hyn yn effeithio ar sut y gellid rhoi derbynebau. Esboniodd Kerrie fod Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn nodi y dylai derbynneb fod ar gael am 12 mis yn dilyn y stop chwiliad.

Rhaid trin yr un sy'n cael ei chwilio gydag urddas a pharch.

Esboniodd Kerrie fod gan unigolyn hawl i wneud cwyn a derbyn cyngor am ble y ceir rhagor o wybodaeth am hyn.

Esboniodd DS Ross Evans fod cofnod sy'n manylu chwiliad yn cael ei gadw am 12 mis ar ôl i rywun gael ei chwilio. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth yn cael ei chofnodi ar unrhyw system heddlu arall oni bai fod gweithredu pellach wedi digwydd o ganlyniad i'r stop chwiliad.

Trafododd yr Ymgynghorwyr brofiadau personol neu brofiadau aelodau o'u teulu o fod yn destun proses stopio a chwilio. Esboniodd un Ymgynghorydd fod aelod o'r teulu wedi'i stopio 3 gwaith mewn un wythnos. Cyngorodd y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol am ei brofiad negyddol ond amlinellodd ei fod yn ddigwyddiad hanesyddol a bod yr holl faterion wedi'u cau.

Diolchodd DS Evans yr Ymgynghorydd am godi'r mater, a dywedodd mai hwn oedd y fforwm delfrydol ar gyfer codi pryderon ynghylch effaith prosesau a gweithdrefnau'r heddlu ar ein cymunedau.

Sicraodd Kerrie y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol fod y rhan fwyaf o stop chwiliadau'n cael eu cynnal yn y modd cywir.

Esboniodd Kerrie mai rôl Awdurdod yr Heddlu mewn perthynas â Stopio a Chwilio yw:

- dal yr heddlu i gyfrif am berfformiad
- ystyried y wybodaeth ansoddol ar Stopio a Chwilio trwy ei strwythurau Pwyllgor
- hyrwyddo ymwybyddiaeth hawliau pobl o ran Stopio a Chwilio
- hyrwyddo cydraddoldebau a pherthnasau da rhwng gwahanol grwpiau o bobl.

Bydd y dyletswyddau deddfwriaethol hyn yn trosglwyddo i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau ym mis Tachwedd.

Nid yw Awdurdod yr Heddlu wedi gosod unrhyw dargedau o gwmpas Stopio a Chwilio, ond maent yn dadansoddi tueddiadau yn y wybodaeth. Os ddaw unrhyw dueddiadau i'r amlwg, bydd yr Awdurdod yn ceisio esboniad gan yr Heddlu.

Mae'r Awdurdod yn fodlon nad oes unrhyw anghyfartaledd rhwng nifer y stop chwiliadau sy'n cael eu cynnal ar aelodau o'r gymuned o wahanol grwpiau ethnig.

Os yw aelodau o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn dymuno gweld y wybodaeth a ystyrir gan yr Awdurdod, ewch i wefan yr Awdurdod lle y cyhoeddir y wybodaeth hon

<http://www.dyfedpowyspoliceauthority.co.uk/cy/community-engagement-external-relations>

<http://www.dyfedpowyspoliceauthority.co.uk/cy/planning-performance-scrutiny>.

Diolchodd DS Evans yr Ymgynghorwyr am eu safbwyntiau a'u persbectifau mewn perthynas â Stopio a Chwilio.

## **10. Cynllun Pegasus**

Rhoddodd Helen Morgan-Howard gyflwyniad byr am y Cynllun Pegasus.

Lansiwyd y Cynllun Pegasus gan Rhian Glynn, Swyddog Cyswllt Cymunedol Troseddau Casineb yr Heddlu, mewn ymgais i'w gwneud hi'n haws i bobl sy'n cael anhawster cyfathrebu gyda'r heddlu i gysylltu â ni. Dyfeisiwyd y Cynllun yn rhannol mewn ymateb i Ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddwch yn seiliedig ar anabledd, a welodd fod pobl ag anableddau'n dioddef digwyddiadau a throseddau casineb ac aflonyddwch sydd ddim yn cael eu riportio i'r heddlu'n aml iawn. Trafododd yr Ymgynghorwyr y cyffelybiaethau rhwng y Cynllun a mentrau eraill sydd wedi'u hanelu at adnabod a chefnogi pobl sydd ag anableddau neu anghenion cyfathrebu penodol – er enghraifft Cynllun Pasbort Sir Benfro (gweler gwefan Grŵp Mynediad Sir Benfro). Cytunwyd ei bod hi'n bwysig i'r gwasanaeth heddlu fedru adnabod anableddau neu anghenion pobl yn gywir mewn amgylchedd dalffa.

Awgrymwyd y dylai Heddlu Dyfed-Powys sôn am Pegasus ar mewn neges drydar unwaith yr wythnos.

### Pwynt Gweithredu

Helen M Howard i drafod codi ymwybyddiaeth ynghylch Pegasus drwy gyfryngau cymdeithasol gyda Rhian Glynn.

## **11. Unrhyw Fusnes Arall**

Hysbysodd Helen Morgan-Howard yr Ymgynghorwyr y byddai hi a Kerrie'n ysgrifennu'n ffurfiol at Ymgynghorwyr i ofyn am gryno-ddarluniau mewn perthynas â gweithredu fel Ymgynghorwyr Digwyddiadau Argyfyngus yn y dyfodol.

Hysbysodd Lisa O'Connor y grŵp mai hwn fyddai ei chyfarfod olaf gan ei bod hi ar fin cychwyn swydd gyda sefydliad arall. Dywedodd ei bod hi wedi mwynhau bod yn gysylltiedig â sefydlu'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

<b>Rhif yr Eitem.</b>	<b>Pwynt Gweithredu</b>	<b>Cyfrifoldeb</b>
7	Yr Uwch-arolygydd A Davies a H M Howard i godi ymwybyddiaeth am y gwasanaeth neges destun mewn argyfwng a gwasanaeth Text Relay.	Yr Uwch-arolygydd A Davies HM Howard
8	Yr Uwch-arolygydd A Davies i drafod datganiad i'r wasg yn ymwneud â thwyll rhyngwyl gyda Chydlynnydd Cyswllt Ysgolion.	Yr Uwch-arolygydd A Davies
8	Yr Uwch-arolygydd A Davies i anfon datganiadau i'r wasg i aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol er mwyn iddynt eu dosbarthu yn eu cymunedau.	Yr Uwch-arolygydd A Davies
8	Yr Uwch-arolygydd Davies i anfon gwybodaeth at PS, fel bod modd iddo hidlo drwy'r sefydliad Cymru gyfan y mae'n gweithio iddo.	Yr Uwch-arolygydd A Davies
10	H M Howard i drafod codi ymwybyddiaeth ynghylch Pegasus drwy gyfryngau cymdeithasol gyda Rhian Glynn.	H Morgan-Howard
Unrhyw Fusnes Arall	Bydd H M Howard a K Phillips yn ysgrifennu'n ffurfiol at Ymgynghorwyr i ofyn am gwyno-ddarluniau mewn perthynas â gweithredu fel Ymgynghorwyr Digwyddiadau Argyfyngus yn y dyfodol.	H Morgan-Howard a K Phillips

### Rhestr Termau

Gellir diffinio 'cymuned' mewn dwy ffordd. 'Cymuned yn ôl diddordeb' yw grŵp o bobl a gysylltir gan brofiad, diddordeb neu nodwedd (er enghraifft, pobl sy'n uniaethu â chrefydd neu gred benodol). 'Cymuned yn ôl lleoliad' yw grŵp o bobl a gysylltir gan leoliad daearyddol.

Diffinnir digwyddiad argyfyngus fel unrhyw ddigwyddiad ble y mae effeithiolrwydd ymateb yr heddlu'n debygol o gael effaith sylweddol ar hyder y dioddefydd, teulu'r dioddefydd a/neu'r gymuned. Efallai y bydd angen i ymateb yr heddlu i rai digwyddiadau argyfyngus penodol barhau am beth amser, ac mewn amgylchiadau o'r fath gall cyngor Ymgynghorwyr Digwyddiadau Argyfyngus fod o fantais.